

# Ysgol I D Hooson



Datblygu llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen  
*Developing Literacy in the Foundation Phase*

Helpu eich plentyn i ddod yn ddarllenwr  
hyderus  
Helping your child become a confident  
reader



Annwyl Rieni / Gwarchodwyr,

Mae'n cael ei gydnabod mai darllen yw'r allwedd i ddysgu. Mae'n agor y drws i bleser, gwybodaeth, hiwmor a llawer o brofiadau cyfoethog bywyd.

Yn yr ysgol, mae llythrennedd yn cynnwys llafaredd, ( siarad a gwrand) Darllen ac Ysgrifennu. Mae tystiolaeth fod darllenwyr yn llwyddiannus pan fo Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu yn cael eu hannog mewn amgylchedd cefnogol a heriol.

Fel athrawon, mae'n bwysig ein bod yn adeiladu ar y profiadau sydd gan y plant cyn iddyn nhw gychwyn yn yr ysgol. Dylen ni ddarparu cyd destunau ar gyfer dysgu sy'n galluogi'r plant i ddatblygu a chyfathrebu yn effeithiol mewn cymdeithas lythrennog.

Fel rhieni, rhoddwn werth ar eich rol chi wrth ddatblygu eich plant fel darllenwyr. Mae llawer o gyfleoedd yn y cartref i gryfhau dealltwriaeth y plant, ac i annog eu sgiliau llythrennedd.

Trwy gyd weithio, mewn partneriaeth cartref/ysgol, gallwch wneud gwahaniaeth sylweddol i ddatblygiad eich plentyn, i'w agweddau, ac i'w hyder fel darllenwr.



Dear Parents/ Carers,

It is well known that reading is the key to learning. It opens the door to pleasure, information, humour and a wealth of life experiences.

In school, literacy involves oracy, ( speaking and listening) Reading, and Writing. There is evidence that readers are successful when oracy, Reading and Writing are incorporated in a supportive and stimulating environment.

As teachers, it is important for us to build on the existing literacy that the children bring with them to school. We must provide contexts for learning that will allow the children to develop and communicate effectively in a literate society.

As parents, we value the important part you play in the development of your child's literacy skills. There are many opportunities in the home and the local environment to strengthen their understanding of the purpose of reading.

Working together, in a home school partnership, we can make a real difference to your child's development, attitude and confidence as a reader.



## Beth fydd fy mhlentyn yn ei wneud yn yr ysgol?

Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn disgwyl y bydd y disgyblion yn cael cyfleoedd dyddiol i ddatblygu eu sgiliau darllen mewn dull ystyrlon, trwy wahanol weithgareddau hwyliog, cefnogol a heriol. Dylent gael cyfle i drafod testunau amrywiol. Mae hyn yn rhan o'u gweithgareddau dyddiol o fewn dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen.

Bydd profiadau dyddiol y plant yn amrywio wrth reswm, ond byddant yn cynnwys y canlynol.

### Darllen ar y cyd.

Dyma pan fydd yr oedolyn yn modelu'r darllen gan rannu'r profiad gyda grwp o ddisgyblion. Mae'r oedolyn yn trafod y strategaethau y mae'n eu defnyddio wrth ddarllen. Mae hyn yn dangos i'r plant fod darllen yn rhywbeth pleserus, ac yn ffordd o ddarganfod gwybodaeth ddiddorol.

### Darllen dan arweiniad.

Dyma pan fydd grwp o blant yn darllen darn o destun fel grwp gydag oedolyn yn gwrando, gan annog y plant, holi cwestiynnau ynglyn a'r testun er mwyn annog dealltwriaeth o'r hyn sy'n cael ei ddarllen.

### Darllen i oedolyn.

Bydd plant yn darllen i oedolion gan ddefnyddio nifer o strategaethau gwahanol. Dyma gyfle i'r oedolyn asesu sut mae sgiliau'r plentyn yn datblygu, ac i ystyried pa strategaethau y maent yn eu defnyddio.

Mae'r strategaethau hyn wedi eu cynllunio yn ofalus ac mewn ffordd gytbwys. Bydd eich plentyn yn darllen trwy ddefnyddio gwahanol strategaethau yn ddyddiol. Byddant yn dod i fwynhau profiadau llythrennedd, gan fagu hyder yn eu sgiliau eu hunain, gan ddatblygu llyfnader mynegiant.

## **What will my child be doing in school?**

The Foundation Phase Curriculum requires that the children have daily access, practice and reinforcement of reading in a meaningful, structured and challenging way by having access to a range of books, fiction and non fiction, stories and extracts. This forms an integral part of the children's daily learning experiences.

Daily experiences will vary but will include some of the following.

### **Modelled/Shared reading.**

Shared reading is when an adult models the reading and teaches the reading process to a group of children. The adult demonstrates good reading habits and strategies. This shows that reading provides pleasure and is a source of information.

### **Guided Reading.**

Guided reading is when the children read the carefully selected text as part of a group and an adult listens, guides and encourages questioning and the development of comprehension.

### **Independent Reading.**

Children are encouraged to read on their own to practice, reinforce and gain confidence.

### **Reading to an adult.**

Children will read to an adult and use a variety of reading strategies. This is an opportunity for the adult to assess how the child is progressing and to establish what strategies they are using.

These different reading experiences are planned into the school curriculum in a balanced and meaningful way. Your child will read using a variety of methods during every school day. They may not experience every element every day, but each day they will be enjoying sharing reading experiences with their teacher and their friends and gaining confidence, fluency and expression.

## **Sut i annog y plentyn i ddod yn ddarllenwr hyderus.....**

Yn yr ysgol rydym yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau darllen i helpu'r plant ddysgu darllen. Pan fydd y plant yn cychwyn adnabod llythrennau yn fwy hyderus, byddwn yn gyrru llyfrau adref, ac rydym yn eich annog i edrych ar y llyfr gyda'ch plentyn. Trafodwch y llyfr, edrychwch ar y lluniau, ac anogwch eich plentyn i gymeryd diddordeb yn beth sydd yn digwydd ynddo. Dim ots fod y llyfr yn Gymraeg a chithau ddim yn rhugl yn yr iaith. Creu profiad pleserus wrth ddechrau trafod llyfrau yw'r nod. Defnyddiwch eich iaith gyntaf, beth bynnag yw honno.

### **Cyn darllen gyda'ch gilydd:**

- Edrychwch ar y clawr, trafodwch y llun. Fedrwch chi ddyfalu am beth mae'r llyfr yn son.
- Trafodwch y cymeriadau ar flaen y llyfr. Pwy ydyn nhw? Beth mae'n nhw'n wneud?
- Nodwch y teitl, yr awdur a'r arlunydd.
- Edrychwch ar y clawr cefn, a'r broliant/crynodeb( blurb) Beth mae'n ddweud wrthych chi am y stori?

### **Wrth ddarllen gyda'ch gilydd:**

- Gadewch i'ch plentyn ddal y llyfr a thro'i'r tudalennau
- Edrychwch ar y manylion yn y lluniau cyn darllen y testun a siaradwch am beth sy'n digwydd
- Anogwch eich plentyn i ddilyn y testun wrth iddo/iddi neu wrth i chi ddarllen.
- Pan fydd eich plentyn yn cael trafferth, holwch beth fedran nhw wneud i helpu eu hunain. Seinio'r gair, ymestyn y gair, darllen ymlaen neu yn ol, meddwl am air arall allai wneud synnwyr, neu edrych ar y lluniau. Pan fyddan nhw wedi dod o hyd i'r gair, triwch ddarllen y darn eto. Bydd hyn yn help i ail gydio yn llif y stori.

- Meddyliwch am beth allai rhai o'r cymeriadau fod yn ddweud, neu yn ei feddwl.
- Cyn troi'r dudalen, gofynnwch iddyn nhw feddwl beth fydd yn digwydd nesaf, neu siaradwch am beth sydd wedi digwydd yn y stori hyd yn hyn.
- Mae bwysig iawn eich bod yn rhoi clod i'ch plentyn am ymdrechu. Mae hyder yn gwbl allweddol. Dylai fod yn brofiad pleserus i'r ddau ohonnoch. Os ydyn nhw'n ei chael hi'n annodd, neu yn flinedig, darlennwch neu dwedwch chi'r stori er mwyn iddyn nhw fedru mwynhau. Mi allech ddarllen bob yn ail neu ddarllen/dweud y stori gyda'ch gilydd.

#### **Ar ôl darllen:**

- Siaradwch am y stori, y cymeriadau a'r digwyddiadau.
- Siaradwch am beth wnaethoch chi ei fwynhau neu beidio ei fwynhau.
- Dewch o hyd i hoff ddarn, gair neu lun
- Chwaraewch gemau ditectif geiriau, gan ddod o hyd i'r geiriau yn cychwyn gyda 'm', neu'n gorffen gyda 'o', neu sydd yn odli ayyb

#### **Wrth iddyn nhw ddod ychydig yn hyn.....**

- Ymunwch a'r llyfrgell yn lleol er mwyn medru dewis gwahanol fathau o lyfrau i'w mwynhau. Trafodwch hoff awduron a pham rydych yn mwynhau eu gwaith.
- Darlennwch rhai o'r llyfrau mae eich plentyn yn mwynhau er mwyn i chi eu trafod nhw gyda'ch gilydd.
- Efallai na fydd angen i'ch plentyn ddarllen yn uchel i chi. Defnyddiwch yr amser i drafod y lyfr, pam wnaethon nhw ei fwynhau ayyb.
- Bydd ail ddarllen hoff lyfrau yn annog plant i adnabod patrymau yn y stori a geiriau newydd

- Os bydd eich plentyn yn gwneud camgymeriad, gadewch iddyn nhw orffen y frawddeg cyn eu cywiro nhw. Yn aml, gall plentyn ddarganfod ystyr gair anodd trwy ddeall gweddill y frawddeg
- Mae plant weithiau'n elwa o ddarllen i blant iau na nhw. Mae'n gyfle iddyn nhw ddarllen yn rhugl i blentyn ifanc, a magu hyder yn y broses.
- Mae tystiolaeth fod canran sylweddol o fechgyn yn tueddu colli diddordeb mewn darllen. Efallai byddai'n well ganddyn nhw ddarllen llyfrau ffeithiol, cylchgronau neu gomics. Os yw hyn yn wir am eich mab ( neu eich merch) peidiwch a phoeni. Darparwch gyfleoedd iddyn nhw ddarllen yr hyn mae'n nhw'n ei fwynhau. Darllen yw darllen a bydd darllen testun o unrhyw fath yn helpu eu sgiliau i ddatblygu.
- Ceisiwch ddarparu amser tawel ar gyfer darllen rheolaidd, pleserus.
- Bwysicaf oll, byddwch yn gadarnhaol am ddarllen. Gnewch yn siwr eu bod nhw'n eich gweld chi'n darllen. Rhowch Iwyth o anogaeth a chlod iddyn nhw.

Gobeithiwn y byddwch yn cael yr awgrymiadau hyn yn fuddiol wrth i chi helpu eich plentyn ddod yn fwy hyderus yn eu darllen, ac i fwynhau pob eiliad o'r profiad. Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth ac yn gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech rydych yn ei roi i gefnogi eich plentyn. Gyda'n gilydd gallwn ddarparu cyfleoedd cyfoethog i helpu eich plentyn ddatblygu fel darllenwr gydol oes!

### **Helping our pupils become confident readers.....**

In school we use a variety of books to help the children learn to read. When they become more confident in their recognition of letter sounds, we will send home a reading book which we would encourage you to look at with your child. Discuss the book, look at the pictures and encourage your child to discuss what happens in the book. At this stage it doesn't matter that it's a Welsh book and that you as a parents are not fluent in the language. It's the positive reading experience we want to encourage.

Use your own first language, whichever language that happens to be.

Here are some suggestions you may find helpful when sharing a book with your child

**Before reading together:**

- Look at the cover, discuss what is in the picture. Can you guess what the story is about?
- Talk about the characters on the front. Who are they? What are they doing?
- Point out the title, author and illustrator.
- Look at the back cover, look at the blurb. What does the blurb tell you about the story?

**During reading together:**

- Let your child hold the book and turn the pages
- Look at the detail in the pictures before reading the text and talk about what is happening.
- Encourage your child to point to the text as they/you read.
- If your child is stuck, ask them what they can do to work it out. Suggest sounding the word out, stretching it, reading on or back, thinking of another word which may make sense, or look at the pictures. When they have worked out the word, have a go together at reading the passage again. This will help them regain the fluency of the story.
- Think about what some of the characters might be saying, or thinking.
- Before turning a page, ask them to predict what is going to happen next, or talk about what has happened so far in the story.

- Please be sure always to praise your child's reading. Confidence is key. The experience should be enjoyable for you both. If they're struggling or tired, you take over the reading/story telling so that they can carry on enjoying the story. You could also try reading a page in turn or both read together.

**After reading:**

- Talk about the story, characters or events.
- Talk about likes and dislikes
- Find a favourite part, word or picture.
- Play word detective games such as 'let's find all the words beginning with 'm', ending in 'o' or that rhyme etc.'

**As they get a little older.....**

- Joining a local library gives your child access to different types of books and opportunities to choose the kinds of books they enjoy. Discuss favourite authors and why they enjoy their work.
- Read some of the books your child enjoys so that you can discuss them together.
- Your child may not need to read aloud to you. Use the time to discuss the book, whether they enjoyed it and why?
- Re-reading favourite books will encourage children to recognise pattern in the story and new words.
- If your child reads a word wrong, allow them to finish the sentence before correcting them. Often, difficult words can be worked out by understanding the rest of the sentence.

- Children sometimes benefit from reading to younger children. This gives them an opportunity to read fluently and with expression, thus gaining confidence.
- There is evidence that a significant proportion of boys tend to lose interest in reading. They may be more attracted to information books, magazines and comics. If this is the case with your son ( or daughter) don't panic. Provide opportunities for them to read what they enjoy. Reading is reading and reading text of any kind will encourage their skills to develop.
- Try to organise some quiet time for regular, pleasurable reading.
- Most importantly, make sure you are always positive about reading. Let the children see you read. Give them loads of praise and encouragement. We hope you find these suggestions helpful as you support your child to access the wonderful world of reading. We very much value your support and appreciate the time and effort you put in. Together we can give your child opportunities and experiences to develop as a life long reader!

